# Rhaglen Gyflawn

**Gwasanaeth Democratiaeth**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

**PWYLLGOR PENSIYNAU ARBENNIG**

Dyddiad ac Amser

**2.00 y.h., DYDD IAU, 20FED HYDREF, 2016**

Lleoliad

**Siambr Hywel Dda, Swyddfa'r Cyngor,**

**Caernarfon LL55 1SH**

Pwynt Cyswllt

**Lowri Haf Evans**

**01286 679878**

**lowrihafevans@gwynedd.llyw.cymru**

(Dosbarthwyd 13  Hydref 2016)

## PWYLLGOR PENSIYNAU

### AELODAETH (7)

### Plaid Cymru (3)

Y Cynghorwyr

Peredur Jenkins    W. Tudor Owen    Simon Glyn

### Annibynnol (2)

Y Cynghorwyr

Trevor Edwards    John Pughe Roberts

### Llafur (1)

Y Cynghorydd    Glyn Thomas

### Democratiaid Rhyddfrydol (1)

Y Cynghorydd    Stephen W. Churchman

### Aelodau Cyfetholedig

Hywel Eifion Jones    Cyngor Môn
Margaret Lyon    Cyngor Bwrdeistref Conwy

### Aelodau Ex-officio

Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Cyngor

# R H A G L E N

## 1. YMDDIHEURIADAU

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Derbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol

## 3. MATERION BRYS

Nodi unrhyw eitemau sy’n fater brys ym marn y cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

## 4. PWL BUDDSODDI CYMRU 4 - 12

Ystyried adroddiad Pennaeth yr Adran Cyllid

# Eitem 4

PWYLLGOR: **Pwyllgor Pensiynau**

DYDDIAD: **20 Hydref 2016**

TEITL: **Pŵl Buddsoddi Cymru**

PWRPAS: **Adrodd ar y Cynnydd a Mabwysiadu Memorandwm o Ddealltwriaeth**

AWDUR: **Dafydd L Edwards, Pennaeth Cyllid**

---

**Rhesymau am yr Adroddiad**

1. Mae'r adroddiad wedi'i pharatoi i hysbysu Aelodau'r Pwyllgor o'r cynnydd gyda datblygu Pŵl Buddsoddi Cymru i reoli asedion buddsoddi'r wyth Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (CPLlL) yng Nghymru ar sail gydweithredol ac i geisio cymeradwyaeth y Pwyllgor ar gyfer y Memorandwm o Ddealltwriaeth ("MoDd") er llywodraethu'r Grŵp Cadeiryddion ar y cyd yn y cyfamser.

**Cefndir**

2. Mae'r wyth CPLlL yng Nghymru wedi bod yn gweithio gyda'i gilydd ers sawl blwyddyn i adnabod ardaloedd o gydweithredu posib dan arweiniad Is-grŵp Pensiwn Cymdeithas Trysoryddion Cymru ("SWT"). Yn 2013 cyhoeddodd yr Is-grŵp adroddiad "Cronfeydd Pensiwn Llywodraeth Leol Cymru: Gweithio gyda'n Gilydd" oedd yn adnabod y maes buddsoddi fel un lle gellid cydweithredu i ddarparu'r arbedion fwyaf arwyddocaol. Comisiynwyd cwmni Mercers i adnabod opsiynau ar gyfer buddsoddi cydweithredol ac ym Mai 2015 cyhoeddwyd eu hadroddiad yn argymell Cerbyd Buddsoddi Cyffredin ("CBC"). Ym mis Medi 2015 cytunodd yr wyth cronfa i symud ymlaen i sefydlu CBC ar sail wirfoddol a phenodwyd Hymans Robertson yn Rhagfyr 2015 i gynghori ar gaffael CBC gan ddarparwr trydydd parti.

3. Mae Llywodraeth y DU wedi cyhoeddi nifer o ymgynghoriadau ar reolaeth y buddsoddiadau CPLlL ac yn 2015 datganodd y byddai rhaid i bob cronfa CPLlL yn Lloegr a Chymru ymuno gyda'i gilydd i ffurfio pŵliau buddsoddi, yn hytrach na'r trefniadau presennol ble mae cronfeydd yn penodi rheolwyr buddsoddi eu hunain. Cyflwynwyd cynnig amlinellol gan y cronfeydd Cymreig ar gyfer Pŵl Buddsoddi Cymru yn Chwefror 2016 a chyflwynwyd cynigion manwl yn ôl y gofyn ar 15 Gorffennaf 2016. Roedd y cynigion yn cynnwys llythyrau o gefnogaeth oddi wrth Gadeiryddion Pwyllgorau a Phaneli Pensiwn yr wyth gronfa. Derbyniwyd ymateb cadarnhaol oddi wrth Weinidog ar gyfer Cymunedau a Llywodraeth Leol i'r cynnig amlinellol, ond ni dderbyniwyd ymateb ffurfiol eto oddi wrth DCLG i'r cynigion manwl.

4. Ni fydd y pŵl yn golygu cyfuno’r wyth gronfa. Bydd bob cronfa yn cadw ei hunaniaeth unigryw a bydd yr awdurdodau gweinyddol yn parhau yn gyfrifol am gydymffurfio a rheoliadau cynlyn CPLIL a’r ddeddfwriaeth pensiwn o safbwynt eu haelodaeth. Bydd cyfrifon blynyddol a phrisiadau actiwarial teirblynyddol yn parhau i gael eu paratoi ar gyfer pob cronfa bensiwn unigol a bydd pob cronfa yn penderfynu ar eu strategaeth ariannu. Bydd gan y pŵl gylch gorchwyl cyfyngedig a’i amcanion fel y nodir yn y ddogfen gynnig, fydd:

- I ddarparu trefniadau pŵlio fydd yn caniatáu i gronfeydd unigol weithredu eu strategaethau buddsoddi eu hunain (lle’n ymarferol).

- I sicrhau arbedion costau o sylwedd ar gyfer cronfeydd sydd yn cymryd rhan wrth wella neu gynnal perfformiad buddsoddi wedi ffioedd.

- I roi trefniadau llywodraethu cadarn mewn lle i oruchwylio gweithgareddau’r pŵl.

- I weithio’n agos gyda phŵls eraill er mwyn archwilio'r manteision y gall budd ddeiliad yng Nghymru gael o ddatrysiadau pŵlio ehangach neu fuddsoddiadau uniongyrchol posibl.

**Ystyriaethau**

5. Mae’r cynnig ar gyfer Pŵl Buddsoddi Cymru yn cynnwys sefydlu Cyd Bwyllgor Llywodraethu sydd yn cynnwys aelodau etholedig o bob awdurdod gweinyddu a gefnogir gan Weithgor Swyddogion. Cynigir hefyd i benodi Gweithredwr a reolir gan yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol (FCA) i ddarparu'r is adeiladwaith ar gyfer sefydlu cerbyd pŵlio ac i reoli’r Pwl ar ran yr wyth cronfa.

6. Mae gwaith yn parhau gyda therfynau amser tyn i sefydlu'r trefniadau llywodraethu ar gyfer y Pŵl gan gynnwys drafftio cytundeb cyd-awdurdod gyfreithiol (yn cynnwys cylch gorchwyl ar gyfer cyd bwyllgor), y fanyleb ar gyfer y gwasanaethau a ddarperir gan y Gweithredwr, a rôl y Gweithgor Swyddogion. Mae ystyriaeth yn cael ei roi hefyd i anghenion y Pŵl ar gyfer cyngor cyfreithiol a buddsoddi arbenigol.

7. Rhagwelir y bydd Cyd Bwyllgor yn cyfarfod mewn ffurf gysgodol (h.y. heb hawl i wneud penderfyniadau) fel Grŵp Cadeiryddion ar y Cyd (GCC) yn ystod weddill 2016 ac yn sefydlu’n ffurfiol yn fuan yn 2017. Mae cylch gorchwyl y GCC yn cael ei osod allan yn y Memorandwm o Ddealltwriaeth (MoDd) arfaethedig a gysylltir yn Atodiad 1. Bydd y GCC yn goruchwylio'r broses caffael ar gyfer y Gweithredwr, ond y Cyd Bwyllgor ffurfiol fydd yn argymell apwyntio'r cynigydd gorau o ran cyrraedd gofynion y fanyleb.

8. Cynigir bod y Grŵp Cadeiryddion ar y Cyd a’r Cyd Bwyllgor Llywodraethu yn cael eu sefydlu gydag un cynrychiolydd o bob Cronfa Bensiwn Cymreig. Felly, mae’n angenrheidiol penodi cynrychiolydd i’r Pwyllgor.

9. Bydd amserlen o gyfarfodydd y GCC/Cyd Bwyllgor yma i’w trefnu i gyd-fynd â’r cynllun prosiect ar gyfer y pŵl.

**Ystyriaethau Cyfreithiol**

10. Mae’r fframwaith cyfreithiol ar gyfer buddsoddiadau cronfa bensiwn a weithredir gan yr Awdurdodau Gweinyddu wedi’u gosod yn gan y “Local Government Pension Scheme (Management and Investment of Funds) Regularions 2009”. Mae’r gyfraith ynglŷn â phensiynau yn gymhleth ac yn arbenigol. Mae arweiniad Llywodraeth Genedlaethol yn awgrymu bod pŵlio CPLlL yn cael ei ganiatáu yn ôl y gyfraith bresennol.

11. Ni fydd y Memorandwm o Ddealltwriaeth arfaethedig, na gwaith y Grŵp Cyd Gadeiryddion, yn creu ymrwymiad cyfreithiol i awdurdodau, ond bydd yn paratoi’r ffordd ar gyfer ymrwymiad fydd yn gyfreithiol i’w gwblhau drwy Gytundeb Rhwng-Awdurdod. Gan y bydd y Cytundeb Rhwng-Awdurdod yn cynnwys sefydlu Cyd Bwyllgor, bydd angen iddo gael ei gymeradwyo gan y Cyngor llawn.

**Ystyriaethau Ariannol**

12. Cynigir bod y costau a gyfyd cyn y trefniadau newydd, gan gynnwys costau llywodraethu’r Grŵp Cadeiryddion ar y Cyd, yn cael eu rhannu’n gyfartal rhwng yr wyth cronfa Gymreig.

**Argymhellion**

**i. Bod y Pwyllgor yn nodi’r cynnydd yn datblygu Pŵl Buddsoddi Cymru.**

**ii. Bod y Pwyllgor yn cymeradwyo'r Memorandwm o Ddealltwriaeth drafft.**

**iii. Bod y Pwyllgor yn dirprwyo hawl i’r Pennaeth Cyllid gytuno unrhyw newidiadau i’r Memorandwm o Ddealltwriaeth, mewn ymgynghoriad â’r Cadeirydd.**

**iv. Bod y Pwyllgor yn penodi un o’i aelodau i gynrychioli’r Pwyllgor ar y Grŵp Cadeiryddion ar y Cyd.**

**Atodiad 1** - Memorandwm o Ddealltwriaeth Drafft

**Dogfennau Cefndir** - Cyflwyniad Pŵl Cymreig i DCLG 15 Gorffennaf 2016

**ATODIAD 1**

**Memorandwm o ddealltwriaeth yn ymwneud â chaffael gwasanaethau gan awdurdodau gweinyddu'r cynllun pensiwn llywodraeth leol yng Nghymru**

1. Mae'r memorandwm o ddealltwriaeth hwn yn llywodraethu perthynas yr awdurdodau gweinyddu ar gyfer y cynllun pensiwn llywodraeth leol yng Nghymru dan Ran 1, Atodlen 3 Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol 2013.

2. Yr awdurdodau gweinyddu sy'n destun y Memorandwm hwn yw Cyngor Dinas Caerdydd, Cyngor Dinas a Sir Abertawe, Cyngor Sir Fflint, Cyngor Sir Gâr, Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen, Cyngor Gwynedd, Cyngor Sir Powys a Chyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf ("yr Awdurdodau Cyfansoddol").

3. Mae'r Awdurdodau Cyfansoddol wedi gwneud cynnig i Lywodraeth Ei Mawrhydi er mwyn pŵlio gweithgareddau buddsoddi sy'n ymwneud â rheolaeth eu cronfeydd pensiwn unigol ac mae'r cynnig hwnnw wedi cael ei dderbyn mewn egwyddor gan Lywodraeth Ei Mawrhydi.

4. Mae'r cynnig yn gofyn am greu cerbyd buddsoddi pŵlio (y "Cerbyd Pŵlio") a dirprwyo gweithrediad y Cerbyd Pŵlio i weithredwr trydydd parti sy'n dal yr awdurdodiadau rheoleiddio (y "Gweithredwr Lletyol"). Gall yr Awdurdodau Cyfansoddol ddirprwyo gwasanaethau sy'n ymwneud â buddsoddi ychwanegol (y "Gwasanaethau Ategol") i'r Gweithredwr Lletyol neu i ddarparwr trydydd parti arall.

5. I fynd â'r cynnig hwnnw ymhellach, mae'r Awdurdodau Cyfansoddol wedi cytuno y byddant yn gweithredu ar y cyd i gaffael y Gweithredwr Lletyol a'r Gwasanaethau Ategol er mwyn bodloni gofynion buddsoddi strategol yr Awdurdodau Cyfansoddol.

6. Mae'r Awdurdodau Cyfansoddol wedi ymrwymo i ddatblygu trefniadau ffurfiol ar y cyd dan Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 drwy Gytundeb Rhyng-awdurdod ("CRhA") ynghyd â Chydbwyllgor dan Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 ("y Cydbwyllgor") i sicrhau gweithrediad effeithiol y gwasanaethau sy'n cael eu caffael, a dylai'r trefniadau hynny fod yn weithredol cyn cychwyn darparu'r gwasanaethau hyn a dim hwyrach na 31 Ionawr 2017. Y dyddiad targed ar gyfer cychwyn y trefniadau gwasanaeth newydd yw mis Ebrill 2017 gyda'r trefniadau hyn i gael eu datblygu'n llawn erbyn mis Ebrill 2018.

7. Bydd yr Awdurdodau Cyfansoddol yn cydweithio'n unol â'r memorandwm o ddealltwriaeth hwn hyd nes y bydd trefniadau ar y cyd ffurfiol (yn cynnwys Cydbwyllgor a Chytundeb Rhyng-Awdurdod cyfreithiol-rwym) yn eu lle.

DRAFT

8. Nid yw'r memorandwm o ddealltwriaeth hwn yn creu unrhyw berthynas gyfreithiol ac nid oes bwriad gan yr Awdurdodau Cyfansoddol i greu perthynas o'r fath. Bydd yr Awdurdodau Cyfansoddol yn gweithredu gydag ewyllys da, yn agored, yn gydradd, yn rhesymol, yn barchus ac mewn ffordd na fydd yn dwyn anfri ar enw da y lleill.

9. Bydd Cyngor Sir y Fflint yn gweithredu fel awdurdod arweiniol er dibenion bwrw ati i gaffael Gweithredwr Lletyol ar y cyd. Cyngor Sir y Fflint fydd yn cyflwyno'r gwahoddiad a hwy fydd yn ymateb yn ffurfiol i unrhyw ymholiadau ac yn derbyn y bidiau. Sir y Fflint fydd yn cyflwyno'r daflen penderfyniad ac ymrwymir i'r contract gwasanaethau naill ai gan bob Awdurdod Cyfansoddol fel cyd-lofnodwyr, gan un awdurdod ar ran yr Awdurdodau Cyfansoddol eraill neu mewn unrhyw ddull arall y bydd yr Awdurdodau Cyfansoddol yn cytuno arno mewn perthynas â'r gwasanaethau a ddisgrifir ym mharagraff 5. Ni fydd y contract yn cael ei ddyfarnu hyd nes i'r Awdurdodau Cyfansoddol ymrwymo i'r Cytundeb Rhyng-Awdurdod.

10. Bydd unrhyw gostau a grëir hyd nes y cwblheir y Cytundeb Rhyng-Awdurdod (yn cynnwys costau unrhyw her ar wahân i'r hyn sy'n codi yn sgil gweithred neu esgeulustod ar ran Sir y Fflint) yn cael eu dyrannu a'u hadfer o bob un o'r Awdurdodau Cyfansoddol yn gyfartal.

11. Er mwyn gweithredu ar y cyd, bydd yr Awdurdodau Cyfansoddol yn llunio Grŵp Cyd-gadeiryddion ("GCC") a bydd pob Awdurdod Cyfansoddol yn cael ei gynrychioli gan un aelod sy'n aelod o bwyllgor pensiynau'r awdurdod hwnnw neu'n aelod o gorff cyfatebol (fel arfer, Cadeirydd pwyllgor pensiynau CPLlL yr Awdurdod Cyfansoddol neu ei gynrychiolydd enwebedig). Bydd y Grŵp Cyd-gadeiryddion yn gwneud argymhellion i'r Awdurdodau Cyfansoddol.

12. Ni fydd y GCC yn gydbwyllgor gyda chyfansoddiad ffurfiol dan Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 ac ni fydd darpariaethau'r Ddeddf honno sy'n ymwneud â chael mynediad i wybodaeth yn berthnasol.

13. Ni fydd gan y GCC unrhyw bwerau wedi'u dirprwyo iddo gan yr Awdurdodau Cyfansoddol a bydd yn gyfrifol am:

13.1 Wneud argymhellion i'r Awdurdodau Cyfansoddol ar y gwasanaethau a'r swyddogaethau i'w cyflwyno gan y Gweithredwr Lletyol, y Gwasanaethau Ategol a'r dull cyflwyno;

13.2 Gwneud argymhellion i'r Awdurdodau Cyfansoddol ar y fethodoleg werthuso i'w defnyddio yn y broses benodi;

13.3 Gwneud argymhellion i'r Awdurdodau Cyfansoddol ar benodi Gweithredwr Lletyol a darparwyr gwasanaeth eraill;

13.4 Gwneud argymhellion ar strwythur y Cerbyd Pŵlio (neu Gerbydau Pŵlio), nifer a ffurfiad yr is-gronfeydd a dyluniad masnachol y Cerbyd Pŵlio (neu Gerbydau Pŵlio);

DRAFT

13.5 Gwneud argymhellion i'r Awdurdodau Cyfansoddol ar yr isafswm polisïau safonau gofynnol cyffredin mewn perthynas â materion moesegol, cymdeithasol a llywodraethu a hawliau pleidleisio;

13.6 Gwneud argymhellion i'r Awdurdodau Cyfansoddol ar rôl a gweithdrefnau'r Cydbwyllgor;

13.7 Gwneud argymhellion ar unrhyw faterion eraill y maent yn eu hystyried yn hanfodol er mwyn bwrw ymlaen yn effeithiol â'r cynnig.

14. Os cyfyd sefyllfa ble na fydd aelod o'r GCC yn parhau i fod yn aelod o'r Awdurdod Cyfansoddol wnaeth ei benodi, neu'n peidio â bod yn aelod o'r Pwyllgor Pensiynau perthnasol, bydd yr Awdurdod Cyfansoddol perthnasol yn penodi aelod arall yn eu lle cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol.

15. Ar ddechrau pob cyfarfod, bydd aelodau'r GCC yn penodi Cadeirydd o blith ei gilydd drwy gynnal pleidlais.

16. Bydd cworwm yn y cyfarfod pan fo 6 aelod yn bresennol. Ni thrafodir unrhyw fusnes mewn cyfarfod oni bai bod cworwm ar ddechrau'r cyfarfod. Pe byddai llai na chwe aelod yn bresennol ar unrhyw bwynt yn y cyfarfod, yna bydd y cyfarfod yn cael ei ohirio hyd nes y bydd y nifer gofynnol yn bresennol neu hyd nes y cynhelir cyfarfod arall.

17. Yn y lle cyntaf, bydd y GCC yn ceisio gwneud penderfyniadau drwy gael consensws. Os nad oes modd dod i gonsensws, gwneir penderfyniad drwy gael pleidlais fwyafrif. Bydd gan bob Awdurdod Cyfansoddol sy'n bresennol un bleidlais ac fe bleidleisir drwy godi llaw. Bydd gan y Cadeirydd bleidlais bellach a bwrw os bydd y bleidlais yn gyfartal.

18. Bydd y GCC yn cael ei gefnogi gan weithgor swyddogion yn cynnwys swyddog adran 151 pob Awdurdod Cyfansoddol ac/neu swyddog(ion) enwebedig priodol o bob Awdurdod Cyfansoddol. Gall y GCC sefydlu gweithgorau eraill i'w gynghori ar faterion o fewn ei gylch gwaith. Gellir ffurfio gweithgorau o'r fath o aelodau neu swyddogion o'r Awdurdodau Cyfansoddol neu unrhyw drydydd parti arall y mae'r GCC o'r farn sy'n addas. Dim ond rôl ymgynghorol sydd i weithgorau o'r fath ac ni all y GCC ddirprwyo ei gyfrifoldebau i weithgorau o'r fath.

19. Bydd clerc y GCC, fydd yn trefnu a darparu cefnogaeth ysgrifenyddol a gweinyddol, yn swyddog a ddarperir gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru.

20. Bydd y GCC yn cyfarfod yn ôl yr angen er mwyn i'r grŵp weithredu ei gyfrifoldebau.

21. Bydd y cyfarfodydd yn cael eu cynnal ar amseroedd, a ddyddiadau ac mewn lleoliadau penodol y rhoddir gwybod i'r aelodau amdanynt gan y clerc. Bydd papurau'r cyfarfod yn cael eu cylchredeg cyn unrhyw gyfarfod. Gellir trafod materion brys mewn cyfarfodydd gyda chaniatâd y Cadeirydd.

DRAFT

22. Gellir galw cyfarfodydd ad hoc ychwanegol er mwyn ystyried materion busnes brys sydd o fewn cylch gwaith y GCC. Gall cyfarfodydd ad hoc o'r fath gynnwys cyfarfodydd rhithwir wedi'u hwyluso gan dechnoleg fideo-gynadledda neu debyg.

23. Gall y GCC wahodd unrhyw berson, boed yn aelod neu'n swyddog o un o'r Awdurdodau Cyfansoddol neu drydydd parti i fynychu unrhyw gyfarfod o'r GCC a siarad ar unrhyw fater perthnasol.

24. Rhaid i weithwyr yr Awdurdodau Cyfansoddol a'r ymgynghorwyr ddatgan p'un a oes ganddynt unrhyw fuddiant o ran unrhyw fusnes y mae'r GCC yn ymdrin ag ef. Diffinnir buddiant fel buddiant ariannol neu arall sy'n debygol o ragfarnu gweithrediad swyddogaethau person fel ymgynghorydd i'r GCC. Ni fydd person gyda buddiant yn chwarae unrhyw ran yn yr eitem yn y cyfarfod mae'r buddiant hwnnw yn ymwneud ag ef.

25. Bydd aelodau'r GCC yn destun y Cod Ymddygiad i Aelodau fel sy'n cael ei weithredu gan yr Awdurdod Cyfansoddol.

26. Dan baragraff 18, bydd Gweithgor Swyddogion (GS) yn cael ei lunio o'r Awdurdodau Cyfansoddol, yn cefnogi a chynghori'r Cydbwyllgor cysgodol.

27. Ni fydd y GS yn gorff gwneud penderfyniadau ond bydd ei aelodau, yn unigol, yn gweithredu unrhyw bwerau sydd wedi'u dirprwyo iddynt gan Awdurdod Cyfansoddol. Bydd ei gylch gwaith fel a ganlyn:

27.1 Cynnig a chaffael gofynion cefnogaeth allanol (e.e. cyngor cyfreithiol a threthiant);

27.2 Cynigion i'r GCC ar drefniadau llywodraethu pŵlio, yn cynnwys sut fydd y Gweithredwr Lletyol a, ble bo'n berthnasol, unrhyw ddarparwr Gwasanaethau Ategol, yn cael eu dal i gyfrif;

27.3 Cynnig y fanyleb ar gyfer sgôp y gwasanaethau sydd eu hangen gan y Gweithredwr Lletyol ac ehangder y Gwasanaethau Ategol sydd eu hangen er dibenion ymarferiad caffael a chynnig proses gaffael briodol;

27.4 Cynigion ar benodi'r Gweithredwr Lletyol a darparwr y gwasanaethau Ategol;

27.5 Cysylltu â chyfreithwyr (ac ymgynghorwyr eraill) i bennu cynigion i'r GCC ar:

27.5.1 lunio cynllun prosiect arfaethedig terfynol sy'n nodi strwythur y cynnig, yn cynnwys y gwasanaethau angenrheidiol gan y Gweithredwr Lletyol a'r Gwasanaethau Ategol, ynghyd ag amserlen fanwl;

DRAFT

27.5.2 amddiffyniadau angenrheidiol yng nghytundeb y Gweithredwr Lletyol a chytundebau â darparwyr gwasanaeth eraill, yn cynnwys yn benodol gamau fydd yn arwain at adael, ymrwymiadau ac indemniad;

27.5.3 strwythur y Cerbyd Pŵlio (neu Gerbydau Pŵlio), nifer a ffurfiad yr is-gronfeydd a dyluniad masnachol y Cerbyd Pŵlio (neu Gerbydau Pŵlio);

27.5.4 y camau gweithredu angenrheidiol dan gontractau presennol sy'n ymwneud â buddsoddi y mae'r Awdurdodau Cyfansoddol wedi ymrwymo iddynt, yn amodol ar gytundeb yr Awdurdodau Cyfansoddol.

27.6 Cynllunio'r trosglwyddiad o'r mandadau presennol i'r Cerbyd Pŵlio, yn cynnwys cynigion ar gaffael un neu fwy o reolwyr trosglwyddo, y gwasanaethau angenrheidiol, amseriad y trosglwyddiad a rhaniad costau'r trafodion.

DRAFFT

Llofnod ar ran Cyngor Dinas Caerdydd

Llofnod ar ran Cyngor Dinas a Sir Abertawe

Llofnod ar ran Cyngor Sir y Fflint

Llofnod ar ran Cyngor Sir Gâr

Llofnod ar ran Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen

Llofnod ar ran Cyngor Gwynedd

Llofnod ar ran Cyngor Sir Powys

Llofnod ar ran Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf

Dyddiedig



DRAFT